






Stiwdios Cerddoriaeth Clore
Tŷ Savile
Cwadranglau Gradel
FFORDD MANSFIELD
FFORDD SAVILE
I Faes Chwarae Weston (5 munud)




# JCR

Ystyr y JCR yw 'Junior Common Room', ac mae'n ardal ymlaciol i israddedigion gael treulio amser hamdden. Fel myfyriwr yma, mae croeso i chi fynd a dod fel y mynnoch. Mae llawer i'w gynnig gan y JCR gyda theledu 4K 65" gyda Sky+ (a Netflix), PS4, Wii, bwrdd snwcer, tenis bwrdd, pêl-droed bwrdd, cegin fach gyda the a choffi, soffas cyfforddus ac unrhyw beth arall y byddai arnoch ei angen i ymlacio mewn awyrgylch debyg i lolfa.

Mae ein cyngor myfyrwyr (a elwir hefyd yn JCR) yn chwarae rhan ganolog ym mywyd y Coleg, boed hynny drwy drefnu gweithgareddau cymdeithasol, cynnal digwyddiadau llesiant ar gyfer myfyrwyr, neu sicrhau bod crwban y coleg Tessa yn parhau i fyw bywyd braf.

Ar wahân i dreulio amser yn y JCR, mae ffyrdd eraill o gymdeithasu yn y Coleg. Mae nosweithiau Meic Agored a Karaoke yn cymryd lle ym Mar y Coleg hyd at deirgwaith pob tymor. Mae Bops (partïon gwisg ffansi) hefyd yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn.

Yn ogystal, mae ystod eang o gymdeithasau arbennig ar gyfer myfyrwyr Coleg Newydd, megis Cantorion Holywell (ein côr di-glyweliad) a Chymdeithas Ddrama Coleg Newydd. Mae timau chwaraeon y coleg yn cynnwys pêl-droed, rhwyfo, rygbi, tenis, pêl-rwyd, hoci, lacrosse, badminton, pêl-fasged, sboncen, rownderi a llawer mwy.







# Y GERDDI A'R DOMEN

Mae Cwad godidog yr Ardd (**G** ) yn ymestyn allan i'n gerddi helaeth. Wrth ddal llygad yr haul yn yr haf, mae'r gerddi yn cynnig hafan heddychlon i fyfyrwyr Coleg Newydd. Yn eistedd yn falch yng nghanol popeth mae un o nodweddion mwyaf trawiadol Coleg Newydd - y Domen (the Mound)! Wedi ei godi yn y 16eg ganrif, mae effaith sain anghyffredin gan y domen a ellir ei glywed drwy glapio yn agos at y gwaelod…

Mae'r Coleg Newydd hefyd yn gartref i un o'r muriau dinas canoloesol sydd wedi ei gadw orau yn y wlad. Gyda thros bedair acer o fannau gwyrdd, ac yn gartref i 27 o rywogaethau o adar, mae Gerddi'r Coleg Newydd yn werddon annisgwyl yng nghalon y ddinas. Nid yw'n syndod bod ein Coleg yn sa-□e f□lmio poblogaidd. F□lm-iwyd *Mamma Mia 2* yn ein Neuadd, defnyddiodd *His Dark Materials* y Coleg ar gyfer lleoliad 'Jordan College', a chafodd Draco Malfoy ei hun ei droi yn ffured gwyn yn ein Clawstrau (o *Harry Potter and the Goblet of Fire*). 'Mae byw ar set f□lm yn un o nifer o fanteision o fod yn fyfyriwr yng Ngholeg Newydd!'



# ADEILADAU NEWYDD

Gan bod y Coleg wedi ei sefydlu yn 1379, gwnewch sylweddoli yn fuan nad yw'r rhan fwyaf o'n adeiladau yn 'newydd' iawn! Yn yr 'Adeiladau Newydd' hyn (a adeiladwyd yn y 19eg ganrif…) y byddwch chi a gweddill myfyrwyr y flwyddyn gyntaf yn byw.

Rydym ni'n gwbod bod symud oddi cartref yn medru bod yn gyfnod anodd, felly rydym yn helpu ein myfyrwyr blwyddyn gyntaf i setlo drwy eich rhoi yn yr un adeilad ar brif safle'r Coleg. Bydd hyn yn eich helpu i wneud ffrindiau yn sydyn, ac ymhen dim byddwch yn dechrau teimlo bod eich ystafell yma fel cartref oddi cartref.

Mae gan y mwyafrif o'n ystafelloedd gyfleusterau en-suite ac fel arfer gyda dim ond un neu ddau o fyfyrwyr eraill y bydd yn rhaid i'r gweddill rannu. Mae gennym dîm cyfeillgar o lanhawyr Coleg i'ch helpu i gadw'ch ystafell yn lân a thaclus hefyd!

Yn y flwyddyn gyntaf rydym yn neilltuo ystafelloedd ar hap ac rydym yn gweithredu ar system falot deg wedi hyn - os oes gennych ystafell fechan yn y flwyddyn gyntaf - cewch ddewis cyntaf ar gyfer llety'r ail flwyddyn; rydym ni'n hoffi trin pawb yn deg yma yng Ngholeg Newydd.

Mae ein holl ystafelloedd yn cynnwys gwely, desg, cwpwrdd dillad, lampau, ac oergell.










# LLYFRGELL

Mae ein Llyfrgell o banelau pren hyfryd yn agored o 8yb tan 2yb, ac mae ganddi dros 100,000 o destunau. Yn ogystal â desgiau traddodiadol, mae nifer o ystafelloedd ar gael ar gyfer grwpiau astudio, felly gallwch astudio ym mha bynnag fodd sy'n eich siwtio.

'Mae'r Llyfrgell yn cynnwys y rhan fwyaf o'r testunau cyffredin y bydd eu hangen ar gyfer eich cwrs ac mae wedi'i lleoli eiliadau i ffwrdd o lety'r flwyddyn gyntaf, gan ei wneud yn lle cyfleus iawn i weithio.'

Os nad ydych chi'n hoff o fynd i'r llyfrgell, mae gennym y North Undercroft, sef lle mwy ymlaciol i astudio. Mae'n ysgafn braf yno (a gyda mynediad hawdd i far/caffi y Coleg), sy'n ei gwneud yn ystafell boblogaidd gyda myfyrwyr sydd yn ffafrio sesiynau astudio mwy rhyngweithiol a sgyrsiol.



# BAR A CHAFFI


Rydym yn gwybod y bydd eich bywyd cymdeithasol yn rhan bwysig o'ch amser yng Ngholeg Newydd.

Mae llawer o'n gweithgareddau cymdeithasol yn cymryd lle yn ein ardal bar / caf - wedi ei addasu o'r seler gwrw 14eg ganrif gwreiddiol.

Boed yn baned a sgwrs gyda ffrind yn ystod y dydd, gweithio mewn awyrgylch mwy ymlacedig, neu ddechrau eich noson allan mewn steil; mae gan y Bar yng Ngholeg Newydd bopeth sydd arnoch ei angen mewn gofod cymdeithasol ar gyfer myfyrwyr.







# NEUADD FWYTA

Ein Neuadd Fwyta yw'r hynaf a'r talaf o holl neuaddau bwyta Rhydychen a Chaergrawnt, sy'n ei gwneud yn lle arbennig iawn i fwyta eich prydau. Efallai y gwnewch ei hadnabod o *Mamma Mia 2: Here We Go Again!*

Mae'n cael ei gynnal fel menter nid-er-elw fel bod costau eich prydau yn aros yn isel. Mae nifer o opsiynau gwahanol wastad ar gael, ac mae ein cogyddion yn brofiadol iawn wrth ymdrin ag anghenion dietegol, o bob math o alergeddau i ddarpariaeth grefyddol - er enghraifft, ar hyn o bryd mae gennym opsiynau halal deirgwaith yr wythnos, yn ogystal ag ym mhob swper ffurfiol.

Mae swperau ffurfiol yn cael eu cynnal pob wythnos - mae'n brofiad i gael rhywun yn gweini arnoch a chael y profi gwledd Rhydychenaidd 'traddodiadol' (gan wisgo'ch gŵn, wrth gwrs!) Maent yn gwbl opsiynol - os fyddai'n well gennych chi gael swper cyffredin yn eich *joggers*, mae hynny'n iawn hefyd!

Rhywbeth hollbwysig yw'r synnwyr o gymuned a geir wrth fwyta yma gyda'ch cydfyfyrwyr. Mae'r mwyafrif o'r myfyrwyr sy'n derbyn llety gan y Coleg yn cofrestru yn awtomatig ar gyfer swper, gan ei wneud yn ganolbwynt arbennig i orffen y dydd - yn gyfle i bawb ddod at ei gilydd ar ôl astudio er mwyn ymlacio, bwyta a chymdeithasu gyda ffrindiau. (Mae brecwast a chinio hefyd ar gael, wrth gwrs!)

# Y CAPEL A'R CLAWSTRAU

Mae Capel y Coleg a'r Clawstrau ymysg adeiladau gwreiddiol y Coleg, a chânt eu dyddio'n ôl i'r 14eg ganrif. Tra bod y Capel yn dal i gael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau, mae'r Capel a'r Clawstrau yn cynnig lle prydferth a thawel i fyfyrwyr o unrhyw neu heb ffydd gael crwydro, meddwl ac adlewyrchu.


Mae'r Capel hefyd yn cynnal perfformiadau cerddorol rheolaidd gan fyfyrwyr, cerddorion lleol a Chôr byd-enwog Coleg Newydd.

Yn yr un modd, mae'r Clawstrau yn cael eu defnyddio ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol fel derbyniadau diodydd a ble gewch chi dderbyn eich tystysgrif graddio pan fyddwch yn graddio. Maent mor brydferth cawsant eu cynnwys yn









# ODDI AR Y PRIF SAFLE

## CWADRANGLAU GRADEL


Er bod y rhan fwyaf o'n myfyrwyr israddedig yn cael llety ar neu o amgylch prif safle'r Coleg, rydym ar hyn o bryd yn adeiladu Cwadranglau Gradel, a fydd yn agor yn 2023. Wedi ei leoli daflaid carreg o brif safle'r Coleg, bydd hyn yn galluogi i ni gynnig llety i fwy o'n myfyrwyr drwy gydol eu graddau.

## STIWDIOS CERDDORIAETH CLORE

Mae ein Stiwdios Cerddoriaeth Clore arbennig ar gael i'w defnyddio gan holl fyfyrwyr Coleg Newydd. Ddwy funud yn unig o'r prif safle, maent yn cynnwys saith ystafell gwrthsain gyda phiano yn y mwyafrif ohonynt.

## MAES CHWARAE WESTON

Mae ein maes chwarae wedi ei leoli bum munud ar droed o brif safle'r Coleg - sydd yn anarferol o agos ar gyfer coleg yn Rhydychen. Mae yma feysydd pêl-droed, rygbi, criced, a hoci, cyrtiau sboncen, ystafell erg a chwrt pob-tywydd ar gyfer pêl-fasged, pêl-rwyd a thenis (yn ogystal â chyrtiau gwair ychwanegol yn yr haf).



9


Er ein bod yn cael ein hadnabod fel 'Coleg Newydd', mewn gwirionedd, ni yw 9fed coleg hynaf Prifysgol Rhydychen. Ein enw gwreiddiol oedd 'Coleg y Santes Fair o Gaerwynt yn Rhydychen' ond oherwydd bod coleg arall wedi ei gysegru i'r Santes Fair (ac am fod yr enw hwnnw yn dipyn o lond ceg!), cawsom ein galw wedi hynny'n y 'Coleg Newydd'.

1379

Y flwyddyn y cawsom ein sefydlu gan William o Wykeham, Archesgob Caerwynt a fu'n Arglwydd Ganghellor ar Loegr ddwywaith.

420

Amcangyfrifiad o faint o fyfyrwyr israddedig sydd yn rhan o deulu



# CYSYLLTU Â NI

